



Diolch am eich ymholiad ynghylch ein swydd newydd gyffrous ym mhencadlys Sefydliad SAFE.

Elusen ddatblygu rhyngwladol ddeinamig fechan yng Nghaerdydd ydym ni. Rydym yn gweithio ym mhedwar ban byd, gan gynnwys Cymru, yn cefnogi pobl sy'n byw yn rhai o gymunedau mwyaf tlawd y byd drwy helpu rhoi cyfleoedd am addysg a gwasanaethau iechyd a'u helpu i feithrin sgiliau ar gyfer y dyfodol. Yng Nghymru, rydym yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac yn eu helpu i ennill sgiliau newydd a nod drwy gyfleoedd gwirfoddoli yn y DU a thramor. Rydym yn griw creadigol, brwd ac ymroddgar ac rydym yn chwilio am rywun a ddaw a mwy fyth o egni i'n tîm.

Rydym nawr yn canolbwyntio ar ehangu ein timau ardderchog o wirfoddolwyr ac mae angen cydlynnydd gwirfoddolwyr profiadol a brwd arnom ni.

Bydd y cydlynnydd gwirfoddolwyr yn gyfrifol am recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr newydd a'r rhai presennol yn y timau canlynol:

Digwyddiadau a Chodi Arian – bydd y tîm yn gallu cynllunio a gweithredu calendr cyffrous o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn er mwyn codi arian i gefnogi ein prosiectau. Bydd 100% o'r arian y maen nhw'n ei godi yn mynd tuag at helpu ein buddiolwyr. Byddant hefyd yn ennill sgiliau amhrisiadwy mewn cynnal digwyddiadau, rheoli projectau, cynllunio, cyllidebu, perthnasau cyhoeddus, cyfathrebu a llawer mwy.

Masnach – bydd y tîm yn gallu cefnogi ein project crefft wedi ei fasnachu'n deg gyda phartneriaid yn Wganda ac India.

Bydd y gwirfoddolwyr yn rhan o'r gwaith archebu a rheoli stoc, bwcio a gwarchod stondinau, hysbysebu a hyrwyddo ein menter a chynnyrch ar-lein ac mewn person, yn ogystal â sefydlu partneriaethau gyda siopau a marchnadoedd ar draws Cymru.

Hyfforddiant - Fel rhan o'n hymroddiad i Ddinasyddiaeth Fyd-eang, rydym wedi datblygu a rhoi hyfforddiant i grwpiau ynghylch testunau megis Mewnfudo, y Cyfryngau a Sensitifrwydd Diwylliannol. Bydd y gwirfoddolwyr yn y tîm yn gyfrifol am sicrhau bod cynnwys y cwrs yn gyfredol a pherthnasol, gwerthu ac archebu cyrsiau ymysg amrywiaeth o sefydliadau cyhoeddus, preifat y trydydd sector a chyflwyno cynnwys y cwrs i unigolion a chwmnïau ar draws Cymru.

Ymgeisio - Anfonwch eich CV a llythyr cais gyda datganiad personol yn nodi eich profiad a chymwysterau ac yn dweud pam y dylem eich cyflogi i'n cyfeiriad ac e-bost (gwybodaeth) nid hwyrach na 5pm ar 19 Chwefror.

Bydd cyfweiliadau'n digwydd o 24-26 Chwefror a bydd y swydd yn dechrau'n syth.